Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Drefniadau Trochi yn y Gymraeg yng

# Nghyngor Bro Morgannwg

Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Bro Morgannwg

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Cyngor Bro Morgannwg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 16/03/2026 |

### Cyd-destun

Cyflwynir mwyafrif darpariaeth trochi yn y Gymraeg yr awdurdod lleol ym Mro Morgannwg ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant. Mae’r gwasanaeth ar gael i ddisgyblion ar draws yr awdurdod, er bod llai o alw gan ysgolion sydd wedi eu lleoli yn rhan orllewinol y sir. Adeg yr arolygiad, mae rhwng 5 a 10 o ddisgyblion oedran cynradd yn mynychu’r ddarpariaeth. Caiff y ddarpariaeth ei harwain gan un athro arweiniol a’i chefnogi gan gynorthwyydd addysgu.

Mae disgyblion sy’n mynychu’r ddarpariaeth yn dod o nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd a phob oed ar draws yr awdurdod, yn cynnwys Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant, Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Ysgol Gymraeg Iolo Morganwg, Ysgol Gymraeg Pen y Garth, Ysgol Gymraeg Sant Baruc, Ysgol Gymraeg Sant Curig ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

Mae’r awdurdod lleol wedi sefydlu partneriaeth ag awdurdod lleol Dinas Caerdydd i ddarparu cymorth trochi yn y Gymraeg ar gyfer disgyblion oedran uwchradd. Caiff y ddarpariaeth hon ei chomisiynu gan awdurdod lleol Dinas Caerdydd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae nifer fach iawn o ddisgyblion wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn. Adeg yr arolygiad, mae un disgybl yn mynychu’r ddarpariaeth yn Ysgol Gymraeg Glan Ceubal.

Er mis Medi 2023, mae’r awdurdod hefyd wedi darparu gwasanaeth peripatetig trwy athro pontio / dilyniant. Mae’r gwasanaeth hwn yn cefnogi disgyblion Blwyddyn 6 sydd angen cymorth ychwanegol â’u medrau Cymraeg, yn ogystal â disgyblion sy’n pontio i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg sydd angen cymorth parhaus ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Mae’r gwaith hwn wedi cyfrannu at leihau nifer y disgyblion sy’n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Saesneg ar ddiwedd Blwyddyn 6.

## Crynodeb

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion o fewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda, gan weithio'n agos gyda staff, teuluoedd ac ysgolion partner i hyrwyddo ymrwymiad ar y cyd i ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â chefnogi lles disgyblion. Mae hyn yn helpu creu diwylliant cryf lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi.

Mae staff yn meithrin cymuned ofalgar a chynhwysol sy'n cynorthwyo disgyblion i deimlo'n ddiogel a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn rhoi pwyslais cyson ar les emosiynol disgyblion ac yn darparu cymorth wedi'i gydlynu'n dda wrth i ddisgyblion ymuno â'r ddarpariaeth, dychwelyd i'w hysgolion cartref a symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. O ganlyniad, mae disgyblion yn setlo'n gyflym, yn magu hyder ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn dangos parch at bobl eraill ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r addysgu yn bwrpasol a difyr. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol i gefnogi datblygiad iaith disgyblion. Maent yn modelu medrau Cymraeg yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso patrymau iaith mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau Cymraeg ac yn magu hyder mewn siarad ac ysgrifennu. Mewn ychydig o achosion, nid yw gweithgareddau'n herio pob un o'r disgyblion yn ddigonol neu nid yw cyfleoedd iddynt feddwl yn annibynnol bob amser yn gyson.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm wedi'i strwythuro'n dda ac yn cefnogi datblygu medrau Cymraeg yn gynyddol. Mae ystod eang o brofiadau cyfoethog, yn cynnwys ymweliadau a gweithgareddau diwylliannol, yn cryfhau ymgysylltiad disgyblion ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a'i threftadaeth.

Mae staff yn defnyddio prosesau asesu yn dda i'w helpu i olrhain cynnydd disgyblion, ac yn addasu addysgu yn briodol. Mae gwaith partneriaeth cryf, yn enwedig gydag ysgolion ac asiantaethau allanol, yn cefnogi cyfnod pontio effeithiol ac yn cyfrannu at y ffaith fod llawer o ddisgyblion yn parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

Mae gan arweinwyr drefniadau addas ar gyfer gwerthuso gwaith y ddarpariaeth drochi a chynllunio ar gyfer gwelliant. Er eu bod yn casglu tystiolaeth uniongyrchol ddefnyddiol, nid yw'r prosesau hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau prosesau monitro i sicrhau ffocws craffach ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth strategol glir a phwrpasol ar gyfer y ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg sy'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r weledigaeth hon yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion o fewn amgylchedd croesawgar, cynhwysol a difyr. Mae arweinwyr yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, rhieni ac ysgolion partner, gan feithrin ymrwymiad ar y cyd i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth wedi creu diwylliant cryf sy'n cefnogi dysgu Cymraeg a datblygiad emosiynol disgyblion, fel ei gilydd.

Ar draws y ddarpariaeth, mae staff yn meithrin amgylchedd cefnogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhan o gymuned glòs. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar les emosiynol disgyblion. Maent yn cefnogi disgyblion yn dda tra maent yn y ganolfan drochi, pan maent yn dychwelyd i'w hysgolion cartref, ac wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r trefniadau cydlynus hyn yn sicrhau bod disgyblion yn setlo'n gyflym ac yn datblygu hyder yn eu gallu i ddysgu Cymraeg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn ymddwyn yn barchus ac yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau. Mae eu hymdeimlad cryf o berthyn a pharch ar y ddwy ochr yn cyfrannu at amgylchedd dysgu digynnwrf ac effeithiol.

Mae staff yn datblygu perthnasoedd gwaith gwresog, ymddiriedus a pharchus â disgyblion. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion unigol, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn galluogi staff i ddarparu cymorth teilwredig ac amserol sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i oresgyn rhwystrau rhag dysgu yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o ofal ac empathi tuag at ei gilydd, ac yn cefnogi eu cyfoedion yn effeithiol yn ystod gweithgareddau cydweithredol, fel gemau iaith a thasgau chwarae rôl. Mae'r cymorth cryf hwn gan gyfoedion yn atgyfnerthu hyder disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol.

Mae addysgu ar draws y ddarpariaeth yn bwrpasol a difyr. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o bob un o'r disgyblion ac maent yn cyflwyno sesiynau dysgu creadigol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu priodol, yn cynnwys atgyfnerthu patrymau iaith cyfarwydd yn rheolaidd a darparu sgaffaldiau iaith strwythuredig. Mae staff yn fodelau rôl iaith effeithiol, yn rhannu cyfarwyddiadau ac yn gofyn cwestiynau gan ddefnyddio geirfa glir a chywir. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac mae bron pob un ohonynt yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau Cymraeg dros gyfnod.

Mae staff yn defnyddio ystod o dechnegau holi sy’n adeiladu’n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn eu hannog i ymestyn eu hymatebion. Maent yn sbarduno disgyblion i esbonio’u meddwl a modelu patrymau iaith yn ofalus, sy’n helpu bron pob un o’r disgyblion i ymateb yn briodol a datblygu eu medrau llafar â hyder cynyddol. Mae staff yn darparu cyfleoedd ystyriol i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso’r patrymau iaith hyn mewn cyd-destunau ystyrlon. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl yn gysylltiedig â’u darllen, fel perfformio sgriptiau ac arbrofi â goslef i gynrychioli cymeriadau ar Ddiwrnod y Llyfr. Mae’r gweithgareddau hyn yn galluogi disgyblion i ymarfer ac ymgorffori patrymau iaith yn llwyddiannus, gan eu cefnogi i ddefnyddio’r Gymraeg yn fwy annibynnol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn trosglwyddo’r medrau hyn yn effeithiol i’w gwaith ysgrifenedig, yn llunio paragraffau disgrifiadol gan ddefnyddio strwythurau iaith a geirfa gyfarwydd yn gywir. Mewn ychydig o achosion, nid yw tasgau’n herio pob un o’r disgyblion yn ddigonol neu mae’r addysgu’n cael ei or-gyfarwyddo sydd, ar adegau, yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu’n annibynnol.

Mae arweinwyr a staff yn cyflwyno cwricwlwm sy’n darparu fframwaith clir a strwythuredig ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gynyddol. Mae staff yn cyflwyno ac yn ailedrych ar eirfa a phatrymau iaith yn systematig, gan sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymarfer a chymhwyso’u dysgu ar draws ystod o gyd-destunau. Mae adnoddau addas a gweithgareddau difyr yn adeiladu’n bwrpasol ar brofiadau blaenorol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio sbardunau gweledol, fel ffilmiau byr o’u dysgu eu hunain, i alw i gof ac ymestyn eu defnydd o iaith wrth ddisgrifio anifeiliaid neu adrodd am ymweliadau. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i atgyfnerthu eu dealltwriaeth a chymhwyso’u medrau gyda hyder cynyddol. Dros gyfnod, mae disgyblion hŷn yn ymestyn eu defnydd o iaith yn llwyddiannus, gan ymgorffori ystod ehangach o eirfa ac ymadroddion.

Mae’r ddarpariaeth yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a dilys sy’n cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o’r Gymraeg a’i diwylliant. Mae gweithgareddau fel ymweliadau â siopau lleol i ymarfer Cymraeg sgyrsiol, cyfleoedd i chwarae rôl, profiadau cerddorol yn cynnwys sesiynau telyn, ac ymweliadau addysgol â lleoliadau fel Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, yn gwella ymgysylltiad disgyblion ac yn dyfnhau eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth Gymreig. Mae’r profiadau hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at gymhelliant disgyblion ac yn eu cefnogi i gymhwyso’u medrau iaith yn bwrpasol mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae trefniadau asesu yn effeithiol. Mae staff yn asesu ymatebion disgyblion yn rheolaidd ac yn olrhain eu cynnydd yn ofalus, gan ddefnyddio’r wybodaeth hon i nodi meysydd lle byddai disgyblion yn elwa ar gymorth ychwanegol. Mae hyn, yn ei dro, yn cynorthwyo staff i addasu addysgu yn briodol ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud

cynnydd cryf dros gyfnod. Mae staff yn rhoi adborth clir i rieni a gofalwyr ar gynnydd eu plant, sy'n cryfhau'r perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd. Yn ychwanegol, mae gweithgareddau ymestyn, fel y 'Pecyn Prysur', yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion atgyfnerthu ac ymarfer eu medrau Cymraeg y tu hwnt i'r rhaglen ffurfiol, gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol.

Mae trefniadau pontio yn hynod effeithiol ac yn gryfder nodedig yn y ddarpariaeth. Mae gwaith yr athro pontio / dilyniant a'r cydweithio agos ag ysgolion partner yn sicrhau cysondeb yn nysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn cefnogi cyfran uchel o ddisgyblion i barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant y ddarpariaeth wrth fagu hyder disgyblion a'u hymrwymiad i addysg cyfrwng Cymraeg.

### Ciplun: Gwaith partneriaeth pwrpasol i gefnogi trochi yn y Gymraeg a phontio

Mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd ac yn rhagweithiol i sefydlu rhwydwaith cryf a phwrpasol o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd ac effaith darpariaeth trochi yn y Gymraeg. Maent yn cydweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid, yn cynnwys y gwasanaeth seicoleg addysg, yr athro pontio / dilyniant, y tîm derbyniadau, a staff o ysgolion partner, fel cydlynwyr ADY, i sicrhau dull trefnus a chydlynus.

Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi cyfnod pontio disgyblion i'r ddarpariaeth drochi, a thrwyddi, yn hynod effeithiol. Rhennir gwybodaeth yn systematig yn gynnar, gan alluogi staff i ddeall anghenion disgyblion yn drylwyr a theilwra cymorth yn briodol. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn setlo'n gyflym, yn datblygu hyder ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu. Mae cydweithio agos ag asiantaethau allanol hefyd yn sicrhau bod disgyblion bregus yn cael cymorth amserol ac effeithiol, yn enwedig yn gysylltiedig â'u hanghenion lles ac emosiynol.

Mae gwaith partneriaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r rhaglen ffurfiol. Er enghraifft, mae darparu adnoddau fel y 'Pecyn Prysur' yn cynorthwyo teuluoedd i atgyfnerthu patrymau iaith yn ystod gwyliau ysgol, sy'n cryfhau'r cysylltiad rhwng y cartref a'r ysgol. O ganlyniad i'r gwaith partneriaeth cydlynol a phwrpasol hwn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau Cymraeg. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg a phontio yn esmwyth rhwng sectorau addysgol, gan adeiladu'n llwyddiannus ar eu profiadau blaenorol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf, sy'n cael ei ymgorffori ar draws pob agwedd ar y ddarpariaeth. Mae staff ar bob lefel yn deall eu cyfrifoldebau yn glir ac yn dilyn gweithdrefnau sefydledig yn ddiwyd i sicrhau diogelwch a lles disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at y lefelau uchel o ymddiriedaeth y mae disgyblion a theuluoedd yn ei rhoi yn y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Maent yn casglu ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol, fel arsylwadau o addysgu a dysgu, i nodi ychydig o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi eu datblygu'n llawn eto, ac nid yw hunanwerthuso bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn addas, ar y cyfan. Mae targedau staff unigol yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau gwella, ac mae staff yn elwa ar ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n cefnogi eu datblygiad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau, yn cynnwys cyllid grant, yn cael eu defnyddio'n briodol i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth dros gyfnod.

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ddarpariaeth, maent yn datblygu hyder ac annibyniaeth gynyddol yn eu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn barod i ymgysylltu â sefyllfaoedd strwythuredig ac anffurfiol, fel ei gilydd, ac yn dangos parodrwydd datblygol i ddefnyddio'r iaith. Mae hyn, wedi'i gyfuno â phwyslais cryf y ddarpariaeth ar les a pherthyn, yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n dda i barhau â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae eirioli cyson arweinwyr a staff dros hyrwyddo'r iaith a chefnogi anghenion unigol disgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at effaith gynaledig y ddarpariaeth dros gyfnod.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff, arweinwyr a phenaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- yn cyfarfod â disgyblion (cyn-ddisgyblion a disgyblion presennol) i drafod eu gwaith a chael eu barn ar agweddau amrywiol ar waith y darparwr
- yn cyfarfod â staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion ac eraill i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso
- yn ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) / y cynllun gwella ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau wedi'u cynllunio
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026